

# CYTUNDEB PLENTYN A GWAITH CYMDEITHASOL

## Cytundeb ar sail hawliau – cynllun sesiwn enghreifftiol ar gyfer creu cytundeb rhwng plant a gwaith cymdeithasol

Mae'r cynllun sesiwn yma'n darparu enghraifft o sut mae modd datblygu cytundeb rhwng plentyn a'u gweithiwr. Mae modd defnyddio'r cytundeb rhwng plentyn ac aelod o staff, e.e. gweithiwr cymdeithasol, neu rhwng sefydliad a grŵp o blant, e.e. cytundeb rhwng Rhieni Corfforaethol mewn Awdurdod Lleol a phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Gall cytundebau fel rhain fod yn bwysig o ran rhannu gwybodaeth a chyd-ddealltwriaeth o hawliau a chymau gweithredu cyfrifol ar gyfer yr holl bartïon. Drwy wneud hynny, gallan nhw gynnwys partïon perthnasol mewn partneriaeth er mwyn cyrraedd nodau cytûn.


# BETH YDYCH CHI AM EI GYFLAWNI?

**Enghraifft:** Cytundebau unigol – Beth yw'r ffyrdd ystyrlon y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i gyflawni eich nodau o gyrraedd eich potensial ac i fod y gorau gallwch chi fod?

Cytundebau sefydliadol – “Beth yw'r ffyrdd ystyrlon y gall y Bwrdd Rhieni Corfforaethol a phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal weithio gyda'i gilydd i sicrhau'r cymorth yma ar gyfer ein poblogaeth sy'n derbyn gofal?”

## C. Beth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial? Beth fyddai'n eich helpu chi i dyfu i fod y gorau y gallwch chi fod? (Erthygl 29)

Gellir defnyddio diagram Venn fel model ar gyfer y drafodaeth – e.e. bydd plentyn a gweithiwr cymdeithasol yn cymryd y cyfle i lenwi'u hadrannau unigol ar wahân. Gallai Swyddog Adolygu Annibynnol helpu gyda hyn.



Rhestrwch y themâu cyffredin yn y canol.

Mae'n bwysig bod pob partner (y plentyn/swyddog proffesiynol) yn llenwi'r diagram yma gan ei bod yn bosib na fydd y plentyn yn gweld pethau sy'n gallu eu helpu i gyrraedd eu potensial yn yr un ffordd ag y byddai'r ymarferydd yn gallu drwy ddefnyddio'u barn broffesiynol. Yn yr un modd, mae'n bosib na fyddai'r gweithiwr cymdeithasol yn gweld pethau o safbwyntiau'r plentyn, sy'n grymuso'r plentyn i nodi eu hanghenion eu hunain yn ôl blaenoriaeth.

Mae modd llenwi hwn gyda phlant a/neu bobl ifanc, gydag unigolyn, brodyr a chwiorydd, teulu neu boblogaeth ehangach. Mae adnoddau ar gael ar [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk) i'ch helpu i feddwl am ffordd o deilwra'r gwaith ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Mae modd cynnwys cymaint o themâu ag sy'n briodol neu sy'n cael eu nodi. Mae'n bwysig bod cysylltiad rhwng pob un â hawliau plant gan fod hyn yn seilio'r cytundeb ar yr anghenion sydd gan y plentyn. Mae copi o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'w weld ar dudalen 4.

Ar ôl llenwi'r diagram, mae gennych seiliau ar gyfer cytundeb. Gallai fod yn ddefnyddiol nodi eich nod cytûn ar frig y dudalen. Mae'r cytundeb templed i'w weld isod:

**Enghraifft:** Rydyn ni'n addo gweithio gyda'n gilydd i barchu hawliau plant, i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn gofal sy'n byw yn (nodwch enw'r Awdurdod Lleol) yn cael pob cyfle i fod yn ddiogel, i gael eu clywed, i fod yn iach ac i fod y gorau gallan nhw fod.

Cytundeb enghreifftiol yn seiliedig ar y diagram Venn enghreifftiol uchod:

Plant a phobl ifanc	Thema Gyffredin	Gweithiwr Cymdeithasol
<p>Byddaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Yn mynd i fy apwyntiadau</li> <li>■ Yn ceisio fy ngorau i wneud dewisiadau iach</li> <li>■ Yn dweud os bydda i'n teimlo bod rhywbeth yn anghywir</li> </ul>	<p><b>Iechyd</b></p> <p>Erthygl 24: Mae gan bob plentyn hawl i gael amgylchedd glân, bwyd maethlon, dŵr glân a sylw meddygol pan fo angen</p>	<p>Byddaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Yn sicrhau y byddaf yn rhoi digon o rybudd i ti am apwyntiadau rydyn ni wedi'u trefnu, ac yn dy helpu i ddeall pam mae'r cyfarfodydd a'r apwyntiadau yn cael eu cynnal.</li> <li>■ Yn darparu cymorth i dy helpu i ddeall beth yw bwyta'n iach/perthnasau iach, ac yn dy gefnogi i wneud dewisiadau sy'n dda i ti.</li> <li>■ Yn darparu cyfleoedd i ti gael dweud beth sy'n dy boeni di ac i wneud yn glir gyda phwy galli di siarad os wyt ti'n teimlo nad yw pobl yn gwranddo arnat ti.</li> </ul>
<p>Byddaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Yn mynd i fy sesiynau Adolygu</li> <li>■ Yn gofyn am gymorth os bydda i'n teimlo nad ydw i'n gallu siarad drosta i fy hunan</li> </ul>	<p><b>Pobl yn gwranddo</b></p> <p>Erthygl 12: Mae gan bob plentyn hawl i roi eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw</p>	<p>Byddaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Yn darparu gwybodaeth mewn digon o amser ac sy'n ddealladwy i ti, fel bod modd i ti fod yn rhan o'r trafodaethau</li> <li>■ Yn darparu adborth am sut rydyn ni wedi/gallwn ni wneud newidiadau ar sail dy safbwyntiau</li> <li>■ Yn gwneud yn siŵr dy fod yn gwybod ble i fynd i ofyn am gymorth os wyt ti am siarad drosot dy hunan</li> </ul>



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

Gwrando. Cefnogi. Helpu.

Helo, fy enw i yw  
Sally Holland a fi yw  
Comisiynydd Plant Cymru.

Fy ngwaith i yw:

**Cefnogi:** ti i ddyysgu mwyr am dy hawliau

**Gwrando:** ar beth sy'n bwysig i ti.

**Cynghori:** ti, ar rheiny sy'n gofalu  
amdatari ti, os wyt ti'n meddwl dy fod di  
wedi dy drin yn annheg.

**Dylanwadu:** ar eraill i sicrhau bod bob  
plentyn yn derbyn eu hawliau.

**Codi ltais:** drostaf ti ar faterion pwysig.



**Llysochenhadon**

Mae gan Sally dimoedd o llysochenhadon ar draws  
Cymru. Plant a phobl ifanc mewn ysgolion neu  
grwpiau cymunedol yw'r llysochenhadon yma sy'n  
bwydo i fewn i waith Sally. Am fwy o wybodaeth ac  
i ymuno â'r cynllun Llysochenhadon, ewch  
[www.comisiynyddplant.cymru/ein-cynlluniau](http://www.comisiynyddplant.cymru/ein-cynlluniau)

# DEALL EICH HAWLIAU

**Rhestr o hawliau sydd gan bob  
plentyn a pherson ifanc yng  
Nghymru ac ar draws y byd yw  
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig  
ar Hawliau'r Plentyn, neu'r CCUHP.**

- Erthygl 1:** Mae gan bobw o dan 18 oed yr hawliau yma.
- Erthygl 2:** Mae gan bob plentyn yr hawliau yma waeth beth. Dylai blant cael eu trin yn gyfartal.
- Erthygl 3:** Dylai oedolion bob amser wneud yr hyn sydd orau i ti.
- Erthygl 4:** Dylai'r Llywodraeth ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i bob plentyn a pherson ifanc.
- Erthygl 5:** Dylai'r Llywodraeth barchu hawl dy deulu i dy helpu i wybod am dy hawliau.
- Erthygl 6:** Mae gennyf ti'r hawl i fywyd, i dyfu i fyny ac i gyrraedd dy botensial llawn.
- Erthygl 7:** Mae gennyf ti'r hawl i gael enw a chenedigrwyd.
- Erthygl 8:** Mae gennyf ti'r hawl i hunaniaeth.
- Erthygl 9:** Mae gennyf ti'r hawl i fod gyda dy rieni os mae dyna sydd orau i ti.
- Erthygl 10:** Mae gennyf ti'r hawl i weld dy deulu os ydynt yn byw mewn gwlad arall.

- Erthygl 11:** Mae gennyf ti'r hawl i beidio â chael dy gymryd o'r wlad yn anghyfreithlon neu i gael dy gipio.
- Erthygl 12:** Mae gennyf ti'r hawl i rywun wrando amaf ac i gael dy gymryd o ddiari.
- Erthygl 13:** Mae gennyf ti'r hawl i ddarganfod a rhannu gwybodaeth ac i ddweud dy farn.
- Erthygl 14:** Mae gennyf ti'r hawl i ymarfer dy greffedd dy hun, cyhyd ac nad wyt ti'n atal pobl rhag derbyn eu hawliau.
- Erthygl 15:** Mae gennyf ti'r hawl i gwrdd â ffriodiau ac ymuno â grwpiau.
- Erthygl 16:** Mae gennyf ti'r hawl i breifatrwydd.
- Erthygl 17:** Mae gennyf ti'r hawl i gael gwybodaeth onest, ddealladwy, gan y cyfryngau, cyhyd â bod e'n ddiogel.
- Erthygl 18:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dy fagu gan y 2 riant os yw'n bosib.
- Erthygl 19:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dy amddiffyn rhag cael dy frifo neu dy drin yn wael.
- Erthygl 20:** Mae gennyf ti'r hawl i dderbyn gofal priodol os nad wyt ti'n gallu byw gyda dy deulu dy hun.
- Erthygl 21:** Os nad wyt ti'n byw gyda dy rieni, mae gennyf ti'r hawl i fyw yn y lle gorau i ti.

- Erthygl 22:** Os wyt ti'n ffocud (refugee), mae gennyf ti'r un hawliau ag unrhyw blentyn arall yn y wlad.
- Erthygl 23:** Os oes anabiedd gyda ti, mae gennyf ti'r hawl i dderbyn gofal a chefnogaeth arbennig er mwyn i ti fedru byw bywyd llawn, annibynnol.
- Erthygl 24:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dŵr glân, bwyd maeithlon, amgylchedd glân a gofal iechyd da.
- Erthygl 25:** Os nad wyt ti'n byw gyda dy deulu, mae gennyf ti'r hawl i'r gofal twy'ti'n derbyn i gael ei wirio'n rheolaidd.
- Erthygl 26:** Mae gennyf ti'r hawl i gefnogaeth gan y Llywodraeth os nod oes gan dy deulu ddigon o arian i fyw.
- Erthygl 27:** Mae gennyf ti'r hawl i dŷ addas, bwyd a dillad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu forddio darparu hyn.
- Erthygl 28:** Mae gennyf ti'r hawl i gael addysg.
- Erthygl 29:** Mae gennyf ti'r hawl i fod y gorau gallet fod. Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a dy ddoniau yn llawn.
- Erthygl 30:** Mae gennyf ti'r hawl i starad dy iaith dy hun a dilyn ffordd dy deulu o fyw.
- Erthygl 31:** Mae gennyf ti'r hawl i ymlacio a chwarae.
- Erthygl 32:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dy ddiogelu rhag gwaith sy'n beryglus.

- Erthygl 33:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dy ddiogelu rhag cyffuriau peryglus.
- Erthygl 34:** Dylai neb gyffwrdd â ti mewn ffyrdd sy'n gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus, yn annioel neu'n drist.
- Erthygl 35:** Mae gennyf ti'r hawl i beidio â chael dy gipio, dy werthu neu dy fasnachu.
- Erthygl 36:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dy gadw'n ddiogel rhag pethau a allai niweidio dy ddatblygiad.
- Erthygl 37:** Mae gennyf ti'r hawl i beidio â chael dy gosbi mewn ffordd greuol neu sy'n brifo.
- Erthygl 38:** Mae gennyf ti'r hawl i gael dy amddiffyn yn ystod rhyfel ac i beidio ymladd yn y fyddin os wyt ti o dan 15.
- Erthygl 39:** Mae gennyf ti'r hawl i help arbennig os wyt ti wedi cael dy frifo neu dy gamdrin.
- Erthygl 40:** Mae gennyf ti'r hawl i help cyfreithol ac i gael dy drin yn deg os wyt ti wedi cael dy gyhuaddo o dorri'r gyfraith.
- Erthygl 41:** Os yw cyfreithiau dy wlad yn dy amddiffyn yn well na'r hawliau yn y rhesir yma, dylai'r cyfreithiau yna aros yn eu lle.
- Erthygl 42:** Rhaid i'r Llywodraeth roi gwybod i blant a theuluoedd am hawliau plant.
- Erthygl 43-54:** Mae'r rhain yn trafod sut mae rhaid i oedolion a'r Llywodraeth weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn derbyn eu hawliau.

## Oes angen i ti drafod problem gyda ni?

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno i helpu ac i gefnogi plant a'u teuluoedd. Cysyllta â ni i weld sut gallwn helpu:

Ffôn: 0808 801 1000 E-bost: [cyngor@comisiynyddplant.cymru](mailto:cyngor@comisiynyddplant.cymru)

## Cysyllta â ni

Gweifan: [www.comisiynyddplant.cymru](http://www.comisiynyddplant.cymru)

E-bost: [post@comisiynyddplant.cymru](mailto:post@comisiynyddplant.cymru)

